



YSGOL LLANFYLLIN

Bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn cael ei chynnal yn Ninbych eleni gyda mynediad am ddim i bawb i Ddathlu canmlwyddiant yr Urdd.

Os yr ydych wedi bod yn rhan o'r Eisteddfod yn y gorffennol, mi fydd trefniadau eleni ychydig yn wahanol. Er mwyn osgoi cymysgu yn ormodol, byddant yn dileu y lefel Cylch ac yn mynd yn syth i'r Rhanbarth (Sir). Ni fydd unrhyw gynulleidfa ar gyfer yr Eisteddfod Ranbarthol na'r Eisteddfod Ddawns Ranbarthol.

Y dyddiadau pwysig ar hyn o bryd felly yw:

- 22/03/22: Eisteddfod Ddawns Rhanbarth i'w chadarnhau
- 25/03/22: Eisteddfod Sir Uwchradd - Ysgol Dafydd Llwyd
- 26/03/22: Eisteddfod Sir Cynradd Ysgol Dafydd Llwyd

Mi fydd llawer o eitemau llwyfan yn cael eu haddysgu yn yr ysgol.

Aelodaeth

Rhaid bod yn aelod o'r Urdd i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2022. Mae Aelodaeth yr Urdd yn cynnwys mynediad i gystadlaethau Chwaraeon, Adrannau ac Aelwydydd, Gwersylloedd, gweithgareddau gwyliau ysgol a llawer mwy.

Pris Aelodaeth 2022:

Aelodaeth unigol £10.

***£1 yn unig i rheiny sy'n derbyn cefnogaeth drwy brydau ysgol am ddim.

Mae gan yr Urdd system newydd 'Y Porth' i gofrestru aelodaeth. Mae angen i rieni greu cyfrif ar gyfer 'Y Porth' ac yna mynd ymlaen i ymuno a thalu aelodaeth ar y system. I greu cyfrif ac ymuno, cliciwch ar y ddolen isod;
<https://www.urdd.cymru/cy/ymuno/>

Ar ôl ymuno, byddwn ni fel ysgol yn cofrestru eich plentyn ar gyfer y cystadlaethau. Os yw eich plentyn am gystadlu, gofynnwn i chi **ymaelodi erbyn Dydd Llun, 7fed o Chwefror** os gwelwch yn dda.

CYFNOD CYNRADD - Nid yw'n bosib i'r holl niferoedd gystadlu yn y Rhanbarth oherwydd cyfyngiadau Covid. Felly, er mwyn hwyluso'r broses, byddwn yn cynnal Eisteddfod ysgol lle bydd cyfle i bawb gystadlu. Y plant sy'n dod yn 1af ac yn 2il yn unig fydd yn cynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Rhanbarth. Ni fydd yr Eisteddfod ysgol tan fis Mawrth, sef ar ôl dyddiad cau cofrestru. Does dim angen ymaelodi i gymryd rhan yn yr Eisteddfod ysgol. Os hoffech ychydig o gymorth neu i drafod os ydych am ymaelodi eich plentyn gyda'r Urdd, cysylltwch â'r ysgol a siaradwch efo Cath Jones neu Sioned Vaughan.

Ar ben hyn, mae hefyd llu o gystadlaethau celf a chrefft. Thema Celf a Chrefft eleni yw 'Môr a Mynydd'. Gweler y rhestr testunau drwy'r ddolen isod;

<https://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod/2022/rhestr-testunau/>

Cysylltwch / Contact

Llanfyllin, Powys SY22 5BJ
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

Tîm Arweinyddiaeth / Leadership Team

Pennaeth / Headteacher:
Mr Dewi Owen
Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:
Mr Llŷr Thomas

Penaethiaid Cynorthwyl /

Assistant Headteachers
Mr Huw Lloyd-Jones
Mrs Ann Roberts
Mrs Sioned Vaughan

Rheolwr Busnes/Business Manager

Mrs Sarah Hunter
CADY/ALNCO
Mrs Rhiannon Molyneux